Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 981 (Cy. 173)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2018 i bennu cyrsiau penodol yn gyrsiau dynodedig yn y Rheoliadau hynny, ac at ddibenion adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel bod myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau o'r fath yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr o dan y Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn trin darparwyr cyrsiau o'r fath fel "darparwyr arferol" o dan reoliad 40 o Reoliadau 2018, fel bod myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau o'r fath yn cymhwyso i gael y symiau uwch o fenthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Ariannu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 981 (Cy. 173)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Awst 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *29 Awst 2025* |
| *Yn dod i rym* | *31 Awst 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a) a (2)(c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Awst 2025.

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018**

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 i 6.

**Amnewid rheoliad 5**

**4.** Yn lle rheoliad 5 (cyrsiau dynodedig) (ond nid y pennawd o'i flaen) rhodder—

> "**5.** Yn y Rheoliadau hyn (ac at ddibenion adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998")), mae cwrs yn gwrs dynodedig os yw'n bodloni—
>
> (a) pob un o'r amodau yn rheoliad 6(1) ac nad yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau yn rheoliad 7(1), neu
>
> (b) y gofynion a nodir yn Atodlen 1A."

**Diwygio rheoliad 40**

**5.** Yn rheoliad 40 (swm benthyciad at ffioedd dysgu), ym mharagraff (2)(c)(i), ar y diwedd mewnosoder "neu ddarparwr a bennir yng ngholofn 2 o Dabl 14A yn Atodlen 1A i'r graddau y mae'n darparu'r cwrs a ddisgrifir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3".

**Mewnosod Atodlen newydd 1A**

**6.** Ar ôl Atodlen 1 (dehongli) mewnosoder—

## "ATODLEN 1A Rheoliad 5(b)

## Cyrsiau dynodedig

> **1.** Cwrs a ddisgrifir yng ngholofn 3 o Dabl 14A—
>
> (a) a ddarperir gan ddarparwr y cwrs a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2,

---

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) sy’n arwain at gymhwyster a ddyfernir gan y corff a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1, ac

(c) sy’n dechrau cyn 1 Ionawr 2026.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Tabl 14A**

| *Colofn 1*<br>*Y corff dyfarnu* | *Colofn 2*<br>*Darparwr y cwrs* | *Colofn 3*<br>*Disgrifiad o'r cwrs* |
|---|---|---|
| Bath Spa University | Boomsatsuma Education | Ffotograffiaeth ac Argraffu Dogfennol – BA (Anrh) |
| | | Gwneud Ffilmiau (Cynhyrchu) – BA (Anrh) |
| | Circomedia | Syrcas Gyfoes gyda Theatr Gorfforol – FdA |
| | Elizabeth School of London | Busnes a Rheoli gyda Blwyddyn Sylfaen Integredig (Birmingham) – BA (Anrh) |
| Buckinghamshire New University | Dancebox Studios and Theatre Works | Dawns Broffesiynol a Theatr Gerdd – BA (Anrh) |
| Canterbury Christ Church University | Elizabeth School of London | Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Llundain) – BSc (Anrh) |
| De Montfort University | National Design Academy | Dylunio Mewnol – BA (Anrh) |
| | National Motorsport Academy | Peirianneg Chwaraeon Moduro – BSc (Anrh) |
| Falmouth University | DBS Institute (DBS Falmouth Limited) | Cynhyrchu Cerddoriaeth Electronig (Bryste) – BA (Anrh) |
| | | Cynhyrchu Cerddoriaeth Electronig (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Celf Gemau (Bryste) – BA (Anrh) |
| | | Sain Fyw (Bryste) – BA (Anrh) |
| | | Sain Fyw (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Cerddoriaeth a Sain ar gyfer Ffilmiau a Theledu (Bryste) – BA (Anrh) |
| | | Cerddoriaeth a Sain ar gyfer Ffilmiau a Theledu (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Cynhyrchu Cerddoriaeth a Pheirianneg Sain (Bryste) – BA (Anrh) |
| | | Cynhyrchu Cerddoriaeth a Pheirianneg Sain (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Dylunio Sain (Bryste) – BA (Anrh) |
| | Fashion Retail Academy | Marchnata a Chyfathrebu ar gyfer Ffasiwn – BA (Anrh) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | Fourth Monkey | Actio – BA (Anrh) |
| | WaterBear Education Limited | Cynhyrchu Cerddoriaeth Greadigol – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Broffesiynol (Busnes) – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Broffesiynol (Cerddoriaeth Electronig) – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Broffesiynol (Cerddoriaeth Electronig) gyda Blwyddyn Sylfaen Integredig – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Broffesiynol (Perfformio) – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Broffesiynol (Cynhyrchu) – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Broffesiynol (Ysgrifennu Caneuon) – BA (Anrh)<br><br>Ysgrifennu Caneuon a Pherfformio Cerddoriaeth – BA (Anrh) |
| Health Sciences University | College of Esports | Hyfforddi a Rheoli E-chwaraeon – BA (Anrh) |
| Kingston University | Boomsatsuma Education | Gwneud Ffilmiau: Ôl-gynhyrchu – BA (Anrh)<br><br>Gwneud Ffilmiau: Cynhyrchu – BA (Anrh)<br><br>Dylunio a Chynhyrchu Gemau – BA (Anrh) |
| Leeds Trinity University | Scholars School System | Busnes a Rheoli gyda Blwyddyn Sylfaen ym maes Busnes (Manceinion) – BSc (Anrh)<br><br>Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Blwyddyn Sylfaen ym maes Iechyd a Gofal (Llundain) – BSc (Anrh) |
| London Metropolitan University | QA Higher Education Manchester | Rheoli Busnes – Tystysgrif Addysg Uwch |
| Newcastle College Group | OLC Europe Limited – yn corffori Eettec Limited | Rheoli Busnes – Tystysgrif Addysg Uwch |
| Plymouth Marjon University | City of London College (Campws Bryste) | Busnes – BSc (Anrh)<br><br>Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen – BSc (Anrh) |
| Southampton Solent University | QA Higher Education | Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) – BSc (Anrh) |
| University for the | London College of | Rheoli Busnes ac Entrepreneuriaeth – BA (Anrh) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Creative Arts | Contemporary Arts Limited | Rheoli a Marchnata Ffasiwn – BA (Anrh) |
| | London College of Contemporary Music | Cerddoriaeth Fasnachol gyda Blwyddyn Sylfaen – BA (Anrh) |
| | | Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth Gyfoes – BMus (Anrh) |
| | | Rheoli Busnes ym maes Cerddoriaeth – BA (Anrh) |
| University of Chichester | Italia Conti Arts Centre Limited | Actio – BA (Anrh) |
| | | Actio – Tystysgrif Addysg Uwch |
| | | Theatr Gerdd – BA (Anrh) |
| | | Theatr Gerdd – Tystysgrif Addysg Uwch |
| | ROM Theatre Arts | Theatr Gerdd Broffesiynol – Tystysgrif Addysg Uwch |
| University of East London | Italia Conti Arts Centre Limited | Theatr Gerdd – BA (Anrh) |
| | University Campus of Football Business Limited | Busnes a Chyllid Pêl-droed (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Busnes a Chyllid Pêl-droed (gyda Blwyddyn Sylfaen) (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Busnes a Marchnata Pêl-droed (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Busnes a’r Cyfryngau Pêl-droed (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Busnes a’r Cyfryngau Pêl-droed (Wembley) – BA (Anrh) |
| | | Busnes Pêl-droed (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Hyfforddi a Rheoli Pêl-droed (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Hyfforddi a Rheoli Pêl-droed (Wembley) – BA (Anrh) |
| | | Hyfforddi a Rheoli Pêl-droed (gyda Blwyddyn Sylfaen) (Wembley) – BA (Anrh) |
| | | Hyfforddi a Datblygu Talent Pêl-droed (Manceinion) – BA (Anrh) |
| | | Hyfforddi Pêl-droed – BA (Anrh) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | | Busnes Pêl-droed Rhyngwladol (Manceinion) – BA (Anrh)<br><br>Newyddiaduraeth Chwaraeon Amlgyfrwng (Manceinion) – BA (Anrh)<br><br>Newyddiaduraeth Chwaraeon Amlgyfrwng (Wembley) – BA (Anrh)<br><br>Newyddiaduraeth Chwaraeon Amlgyfrwng (gyda Blwyddyn Sylfaen) (Manceinion) – BA (Anrh)<br><br>Addysg Gorfforol (Manceinion) – BA (Anrh)<br><br>Busnes a Hyfforddi Chwaraeon (Wembley) – BA (Anrh)<br><br>Busnes Chwaraeon a Darlledu Chwaraeon (Manceinion) – BA (Anrh)<br><br>Rheoli Chwaraeon (Manceinion) – BA (Anrh) |
| University of Greater Manchester | Shockout Arts | Dawns Broffesiynol a Masnachol – BA (Anrh)<br><br>Dawns Broffesiynol a Masnachol – Tystysgrif Addysg Uwch<br><br>Dawns Broffesiynol a Masnachol – FdA<br><br>Dawns Broffesiynol a Masnachol – (atodol) – BA (Anrh)<br><br>Dawns Broffesiynol a Masnachol gyda Blwyddyn Sylfaen – BA (Anrh)<br><br>Dawns Fernaciwlar Stryd a Hip-Hop – FdA |
| | UoB Manchester (enw masnachu LCA Education Limited) | Rheoli Busnes Rhyngwladol – BSc (Anrh)<br><br>Rheoli Busnes Rhyngwladol gyda Blwyddyn Sylfaen Integredig – BSc (Anrh) |
| University of Lancashire | Spirit Studios | Peirianneg Sain Fyw a Chynhyrchu Cerddoriaeth – BSc (Anrh)<br><br>Cynhyrchu Cerddoriaeth – BA (Anrh)<br><br>Cerddoriaeth Boblogaidd, Ysgrifennu Caneuon a Pherfformio – BA (Anrh) |
| University of Northampton | Stella Mann College of Performing Arts | Y Celfyddydau Perfformio – BA (Anrh) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | Virtual Learning UK (Universal Centre of Sport) | Hyfforddi Chwaraeon (Campws Lydney) – BA (Anrh) |
| University of Staffordshire | Wilkes Academy of Performing Arts | Theatr Gerdd – BA (Anrh) |
| University of the West of England | Bristol City Robins Foundation | Busnes ac Entrepreneuriaeth Chwaraeon – BA (Anrh) |
| | Bristol Old Vic Theatre School | Y Celfyddydau Cynhyrchu (y Llwyfan a'r Sgrin) – BA (Anrh) |
| | | Actio Proffesiynol – BA (Anrh) |
| | Bristol, Clifton and West of England Zoological Society Limited (Bristol Zoological Society) | Cadwraeth Bywyd Gwyllt Integredig – FdSc |
| University of West London | Addict Dance Academy | Perfformio Dawns – BA (Anrh) |
| | | Perfformio Dawns – FdA |
| | | Dawns (atodol) – BA (Anrh) |
| | | Perfformio Theatr Gerdd – BA (Anrh) |
| | | Perfformio Theatr Gerdd (atodol) – BA (Anrh) |
| | Creative Academy | Dawns – BA (Anrh) |
| | Drama Studio London | Actio Proffesiynol – BA (Anrh) |
| | Met Film School | Actio ar gyfer y Sgrin – BA (Anrh) |
| | | Cynnwys, y Cyfryngau a Chynhyrchu Ffilmiau (Leeds) – BA (Anrh) |
| | MPAA | Perfformio Theatr Gerdd – BA (Anrh) |
| | School of Ballet Theatre UK | Perfformio Bale – BA (Anrh) |
| | UK College of Business and Computing Limited | Rheoli Adnoddau Dynol gyda Blwyddyn Sylfaen – BSc (Anrh)" |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o
Weinidogion Cymru
27 Awst 2025